## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sefydlu a chynnal gofal meirch trwy ymarfer, bwydo a gofalu am y march yn ddyddiol. Byddwch yn sefydlu ac yn cynnal rhaglen ymarfer, yn nodi ac yn gweithredu gofynion deietegol, yn nodi problemau iechyd ac yn cymryd y camau adferol priodol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. cynnal iechyd meirch fel mater o drefn
3. sefydlu a chynnal rhaglenni ymarfer i gynnal iechyd, lles a ffitrwydd
4. gweithredu gofynion deietegol ar gyfer meirch
5. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw broblemau y byddwch yn dod ar eu traws yn ymarfer a bwydo'r march
6. nodi unrhyw broblemau iechyd gyda'r march a chymryd y camau priodol
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. gofynion deietegol meirch
3. gofynion ymarfer meirch
4. y ffitrwydd angenrheidiol cyn y tymor cyplu
5. sut i gynnal lles corfforol a seicolegol y march
6. y problemau ymddygiadol allai godi a sut i ymdrin â nhw
7. sut i nodi problemau iechyd a'r camau priodol i'w cymryd
8. y problemau a allai godi wrth ymarfer a bwydo a'r camau priodol i'w cymryd
9. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Cwmpas/Ystod

Hybu iechyd trwy dri o'r canlynol:

- rheoli parasitiaid
- crafu dannedd
- torri traed
- brechu fel mater o drefn

## Geirfa

Gofynion deietegol meirch er enghraifft:

- dŵr
- porthiant
- porthiant ategol
- amrywiadau tymhorol

Sefydlu a chynnal gofal meirch

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq332 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; meirch; gofal |